I bobl Prydain, mae Affganistan yn dir strategol bwysig rhwng Ymerodraeth Rwsia ac India. Dyma lle'r oedd Cwmni Masnachu India'r Dwyrain, sef cwmni'n perthyn i'r Ymerodraeth Brydeinig, yn monopoleiddio'r llwybrau masnachu sbeisys, te a thecstilau gan gynhyrchu elw enfawr i Lundain.

1839
Y Rhyfel Eingl-Affganaidd Cyntaf

1842
Mae llawer o frwydrau gwaedlyd wedi bod, felly mae Cwmni India'r Dwyrain yn penderfynu bod meddiannu Affganistan yn costio'n rhy ddrud ac maen nhw'n tynnu allan.

1878
Yr Ail Ryfel Eingl-Affganaidd
Mae Prydain yn teimlo dan fygythiad o hyd gan ddylanwad Rwsia yng Nghanolbarth Asia, felly mae'n goresgyn Affganistan gyda 40,000 o filwyr

1880
Mae Cytundeb Gandamak yn rhoi rheolaeth i Brydain dros Affganistan.

Heddiw, mae ymryson mawr ar y ffin rhwng gogledd-orllewin Pacistan ac Afganistan, yn rhan o'r 'rhyfel ar derfysg' byd-eang. Ond, rhwng 1849 a 1947, dyma lle cafwyd cyfres o gyrchoedd cosbol gan y lluoedd Prydeinig-Indiaidd yn erbyn y llwythau eithriadol o annibynnol oedd yn byw yn yr ardal fynyddig hon.

1919
Y Trydydd Rhyfel Eingl-Affganaidd
Daw Amanullah Khan yn Amir newydd Affganistan, gan ddiddymu Cytundeb Gandamak ar unwaith. Mae gan Brydain ofn cynghrair Amanullah gyda chyfundrefn y Bolsiefigiaid yn Rwsia a'r ffaith eu bod nhw'n cefnogi cenedlaetholdeb Affganaidd. Mae llawer o frwydrau'n dilyn, gyda'r Prydeinwyr yn defnyddio cyrchoedd awyr ar drefi a phentrefi.
Mae Cytundeb Rawalpindi (Awst 1919) yn cydnabod annibyniaeth lwyr Affganistan.

1921
Am fod lluoedd arfog Prydain wedi lleihau o ganlyniad i'r Rhyfel Byd Cyntaf, maen nhw'n colli'r frwydr yn y diwedd.
Mae UDA yn cydnabod Affganistan yn swyddogol fel gwlad annibynnol.

1933
Daw Zahir Shah yn Frenin ar Affganistan gan ddod â sefydlogrwydd cyffredinol i'r rhanbarth am y 40 mlynedd nesaf.

1950s
Mae Mohammed Daoud Khan, y Prif Weinidog newydd sydd o blaid y Sofietiaid, yn cyflwyno diwygiadau cymdeithasol. Mae'n cael gwared â 'purdah' (gwahanu ar sail y rhywiau) ac yn datblygu cynghrair â llywodraeth Rwsia am gymorth economaidd a milwrol.

Llwybr yr Hipi
Roedd Llwybr yr Hipi yn daith dros dir a deithiwyd gan aelodau o is-ddiwylliant yr hipis o ganol yr 1950au hyd flynyddoedd hwyr yr 1970au rhwng Ewrop a De Asia, yn bennaf drwy Iran, Affganistan, Pacistan, India a Nepal. Yn dilyn dau ddegawd o ddiddordeb cynyddol mewn diwylliant oedd yn gwbl wahanol i ddiwylliant y Gorllewin, gyda nomadiaeth ac ysbrydolrwydd y Dwyrain, cyrhaeddodd Llwybr yr Hipi uchabwynt ei boblogrwydd ynghanol yr 1970au. Yn dilyn goresgyniad y Sofietiaid yn 1979, nid oedd croeso bellach i Orllewinwyr yn y rhanbarth.

1960s
Khan i ymddiswyddo ynghanol chwyldro gwleidyddol a chyflwynir brenhiniaeth gyfansoddiadol. Mae Plaid Gomiwnyddol Affganistan yn ffurfio, o dan arweiniad Babrak Karmal a Nur Mohammad Taraki.

1973
Sefydlu Gweriniaeth Affganistan sydd â chysylltiadau agos â'r Undeb Sofietaidd.

1975-77
Cynigir cyfansoddiad newydd sy'n rhoi mwy o hawliau i fenywod ac sy'n moderneiddio'r wladwriaeth gomiwnyddol.

1978
Mae Khan yn cael ei ladd mewn gwrthryfel o blaid y Sofietiaid. Ffurfir y Mujahadeen i frwydo yn erbyn y Llywodraeth a gefnogir gan y Sofietiaid, ac maent yn derbyn cefnogaeth gan lywodraeth yr Unol Daleithiau.

1980
Mae dogfennau o'r Tŷ Gwyn a gafodd eu digelu'n ddiweddar yn dangos bod CIA yr Arlywydd Carter yn 1980 wedi gwario bron i $100 miliwn yn anfon arfau i Fyddin Gêl Affganistan (yn cynnwys y Mujahadeen). Y rheswm am wneud hyn oedd eu pryderon yn ymwneud â'r Rhyfel Oer, a chyn hir roedd gwerth biliynau o ddoleri o arfau wedi cyrraedd Affganistan.

1982
Am fod gwrthdaro treisgar yn parhau, amcangyfrifir bod 2.8 miliwn o Affganiaid wedi ffoi i Bacistan, a 1.5 miliwn pellach i Iran. Mae grwpiau gerila Affganaidd yn rheoli'r ardaloedd gwledig, a'r lluoedd Sofietaidd yn dal yr ardaloedd trefol.

1984
Mae'r Islamydd o Saudi, Osama Bin Laden, yn mynd ar ei ymweliad cyntaf i Affganistan i gael ei ddogfennu, er mwyn cefnogi ymladdwyr gwrth-Sofietaidd.

1986
Mae'r Mujahadeen yn derbyn arfau gan nifer o wledydd, yn cynnwys Prydain, UDA a China.

1988
Mae Affganistan, yr Undeb Sofietaidd, yr Unol Daleithiau a Pacistan yn llofnodi cytundeb heddwch ac mae lluoedd Sofietaidd yn dechrau tynnu allan.

1989
Sefydlir Al-Qaeda i recriwtio jihadyddion newydd.

1994
Mae milisia Islamaidd newydd wedi ffurfio ac yn dod i'r amlwg, sef y Taliban. Ymysg ei aelodau mae nifer o gyn-ymladdwyr y Mujahadeen.

'Saethon nhw fy nhad o flaen fy llygaid. Roedd hi'n naw o'r gloch y nos. Daethon nhw i'n tŷ ni a dweud wrtho eu bod wedi cael gorchymyn i'w ladd am ei fod wedi caniatáu i mi fynd i'r ysgol. Roedd y Mujahideen wedi fy atal rhag mynd i'r ysgol yn barod, ond doedd hynny ddim yn ddigon. Ni allaf ddisgrifio beth wnaethon nhw i mi ar ôl lladd fy nhad...'
Merch pymtheg oed yn Kabul, 1995 (Amnest Rhyngwladol)

1996
Mae'r Taliban yn ennill rheolaeth dros Kabul, gan orfodi eu fersiwn nhw o Gyfraith Sharia Islamaidd.
Mae menywod a merched yn cael eu gwahardd rhag mynd i'r ysgol a gweithio, rhag ymwneud â gwleidyddiaeth a rhag gadael y tŷ heb ddyn yn gwmni iddynt. Gwrthodir nifer o hawliau eraill iddynt hefyd.

1998
Ymosodiadau bomio ar lysgenadaethau'r Unol Daleithiau yn Nairobi a Dar es Salaam.
Mae Llywodraeth yr Unol Daleithiau'n dal Al Qaeda yn gyfrifol ac yn arestio dau o bobl sy'n gysylltiedig â bin Laden. Mae Arlywydd yr Unol Daleithiau, Bill Clinton, yn gorchymyn cyrch milwrol i ddial ar fannau yn Affganistan y dywedir eu bod yn wersylloedd hyfforddi i bin Laden.
Mae UDA yn ditio Bin Laden a 21 o bobl eraill, gan eu cyhuddo o'r bomio ar ddwy lysgenadaeth yr Unol Daleithiau ac o gynllwynio i wneud gweithredoedd terfysgol eraill.

1999
Mae UDA yn cyhoeddi Osama bin Laden yn derfysgwr rhyngwladol ac mae si ar led ei fod yn cuddio yn Affganistan. Mae'r Taliban yn gwrthod ceisiadau gan yr Unol Daleithiau i'w estraddodi.
Mae'r Cenhedloedd Unedig yn gosod embargo awyr a sancsiynau ariannol er mwyn gorfodi Affganistan i roi bin Laden iddynt er mwyn ei roi ar dreial.

Med. 2001
Ymosodiadau 9/11 yn Efrog Newydd
UDA yn cyhoeddi mai Al-Qaeda a Bin Laden sy'n gyfrifol.
Arlywydd UDA, George W Bush, yn cyhoeddi "rhyfel ar derfysgaeth" .

Hyd. 2001
Lluoedd arfog UDA a Phrydain yn lansio cyrchoedd awyr ar Affganistan.

Tac. 2001
Cynghrair y Gogledd yn mynd i mewn i Kabul.
Rhagfyr: Cytundeb Bonn y Cenhedloedd Unedig.
Arweinwyr y Taliban yn ildio a Hamid Karzai, brenhinwr a Pashtun ethnig yn cael ei sefydlu yn arweinydd y llywodraeth dros dro yn Affganistan.

Roedd cyfanswm o 2850 o gyfieithwyr lleol ar gontractau uniongyrchol i'r Fyddin Brydeinig rhwng 2001 a 2018. Ar ôl 2018, defnyddiodd y Fyddin Brydeinig gyfieithwyr drwy gontractwyr. Gweithiodd tua 4,000 o ddinasyddion lleol mewn rolau cefnogol hanfodol eraill i'r Fyddin Brydeinig.

2002
Anfon y fintai gyntaf o'r Llu Cynorthwyol Diogelwch Rhyngwladol (ISAF) a arweinir gan NATO.
Mae'r DU yn lansio ei hymgyrch ymladd, Operation Herrick.
UDA yn agor gwersyll carcharu Guantanamo Bay yng Nghiwba.

2005
Pobl Affganistan yn pleidleisio yn yr etholiadau seneddol cyntaf mewn mwy na 30 mlynedd.

2006
Yn dilyn y gwrthdrawiadau treisgar parhaus gyda'r Taliban, mae NATO yn cymryd y cyfrifoldeb am ddiogelwch drwy Affganistan gyfan.
Y lluoedd Prydeinig cyntaf yn cael eu hanfon i Helmand.
352 o gyfieithwyr Affganistanaidd lleol yn dechrau gweithio i'r Fyddin Brydeinig.

2009
Mae Arlywydd yr Unol Daleithiau, Barack Obama, yn cyhoeddi bod 17,000 o luoedd ymladd ychwanegol a 4,000 o bersonél Americanaidd yn mynd i hyfforddi a chefnogi heddlu a byddin Affganistan.
Cyhoeddwyd Hamid Karzai yn enillydd yr etholiadau am arlywyddiaeth – etholiadau oedd wedi bod yn llawn trais, honiadau o dwyll a niferoedd isel yn pleidleisio.

Gwefan chwythu'r chwiban Julian Assange, Wikileaks, yn cyhoeddi miloedd o ddogfennau cyfrinachol, yn cynnwys 91,000 o adroddiadau cyfrinachol am y rhyfel yn Afghanistan o 2004 hyd 2010. Dywedodd y Guardian bod "Celc enfawr o ffeiliau milwrol cyfrinachol yr Unol Daleithiau'n dangos darlun dinistriol heddiw o'r rhyfel aflwyddiannus yn Affganistan, gan ddatgelu bod lluoedd y gynghrair wedi lladd cannoedd o bobl gyffredin mewn digwyddiadau sydd heb eu cyhoeddi, bod ymosodiadau'r Taliban wedi cynddu'n enfawr a bod cadlywyddion NATO yn ofni bod Pacistan ac Iran gerllaw yn gwaethygu'r gwrthryfel."

2010
Y Weinyddiaeth Amddiffyn yn lansio'r Cynllun Bygythiad i gefnogi pobl gyffredin sydd wedi eu cyflogi'n lleol ac sydd mewn perygl oherwydd eu gwaith i'r Deyrnas Unedig yn Affganistan.

2011
Lluoedd yr Unol Daleithiau'n lladd Osama bin Laden ym Mhacistan.

2012
Llywodraeth y DU yn cyhoeddi gostyngiad i'r lluoedd Prydeinig yn Affganistan.

Cafwyd Chelsea Manning (Bradley Manning gynt) yn euog yn UDA o bum cyhuddiad o ysbïo am roi defnydd cyfrinachol i Wikileaks.

2013
Ym mis Mehefin 2013, mae Gweinyddiaeth Amddiffyn y DU yn lansio Cynllun Ex-Gratia / Diswyddiad sy'n cynnig opsiwn i staff Affganaidd lleol symud i fyw i'r DU os oeddent

- wedi eu cyflogi mewn rolau rheng flaen ar y dyddiad y cyhoeddodd Llywodraeth y DU ostyngiad yn y lluoedd Prydeinig,
- wedi cael eu diswyddo o ganlyniad uniongyrchol i'r penderfyniad i ostwng y lluoedd
- wedi gweithio am 12 mis neu fwy yn Helmand.

2014
Obama yn cyhoeddi amserlen ar gyfer gostwng lluoedd UDA yn sylweddol erbyn 2016.
Y fyddin Affganaidd yn cymryd y cyfrifoldeb llawn am yr holl ymgyrchoedd milwrol a diogelu.
UDA a Phrydain yn dod â'u hymgyrchoedd brwydro yn Affganistan i ben, wrth i rôl frwydro swyddogol ISAF NATO orffen. Mae milwyr NATO yn aros yno i hyfforddi a chynghori lluoedd Affganistanaidd.
Camp Bastion, y ganolfan ar gyfer ymgyrchoedd milwrol Prydain yng Ngweriniaeth Helmand yn cael ei drosglwyddo i Luoedd Affganaidd.

2015
Mae Islamic State yn dod i'r amlwg yn nwyrain Affganistan ac yn cipio ardaloedd mawr yn Nangarhar sydd o dan reolaeth y Taliban.
Mae Obama yn rhoi'r gorau i gynlluniau i dynnu lluoedd UDA allan, ac mae 17,000 o filwyr yn parhau ar ddiwedd ei arlywyddiaeth.

2017
Arlywydd yr UDA, Donald Trump, yn ymrwymo i gadw presenoldeb milwrol yn Affganistan i frwydro terfysgaeth a'r Taliban sy'n codi eto. Mae'r ymosodiadau gan Islamic State yn cynyddu.

2018
Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Amddiffyn yn y DU yn cyhoeddi ei adroddiad 'Lost in Translation? Afghan Interpreters and Other Locally Employed Civilians'. Mae'r adroddiad yn datgelu nad yw unrhyw un o'r 401 o Affganiaid a ddywedodd bod eu diogelwch wedi ei fygwth o dan y Cynllun Bygythiad wedi cael eu hadleoli i'r DU.

Cadeirydd y Pwyllgor Amddiffyn, Dr Julian Lewis AS
"Mae hyn nid yn unig yn fater o anrhydedd, mae'r ffordd yr ydym yn trin ein cyn-gyfieithwyr a gweithwyr lleol – yr oedd llawer ohonynt wedi gwasanaethu gyda dewrder mawr – yn anfon neges at y bobl y byddem eisiau eu cyflogi mewn ymgyrchoedd milwrol yn y dyfodol, wrth iddynt benderfynu a allant ymddiried ynom i'w cadw nhw'n ddiogel os bydd ein gelynion eisiau dial arnynt a thalu'r pwynt yn ôl."

Ion. 2019
Mae cenhadon UDA a'r Taliban yn cwrdd yn Qatar i drafod cytundeb heddwch. Nid yw Arlywydd Affganistan Ashraf Ghani yn cymryd rhan yn y sgyrsiau hyn.

Che. 2019
Mae UDA a'r Taliban yn llofnodi cytundeb heddwch (a elwir Cytundeb Doha) gyda thelerau ar gyfer ciliad UDA erbyn Mai 2021.
Yn ddiweddarach, mae Gweinidog Amddiffyn y DU yn galw cytundeb Doha "gytundeb pwdr".

2020
Erbyn diwedd 2020, mae 445 o'r cyn staff Affganaidd lleol a'u teuluoedd wedi eu hadleoli i'r DU drwy'r Cynllun Ex-Gratia.
Ym mis Hydref 2020, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi estyniad i'r Cynllun Ex-Gratia, gan olygu bod tua 100 yn fwy o gyfieithwyr Affganaidd yn gymwys i gael eu hadleoli i'r DU.

Ebr. 2021
Arlywydd Biden UDA yn cyhoeddi ciliad lluoedd yr Unol Daleithiau erbyn pen-blwydd 9/11 yn 2021.
Llywodraeth y DU yn lansio Polisi Adleoliadau a Chymorth Affganaidd (ARAP) i ailgyfanheddu dinasyddion Affganaidd sydd wedi cefnogi ymdrechion Prydeinig yn Affganistan.

Meh. 2021
Mae 17 o sefydliadau o 8 o wledydd, yn cynnwys y DU, yn cyhoeddi llythyr agored sy'n rhybuddio ysgrifennydd cyffredinol NATO a'u penaethiaid gweriniaeth bod amser yn dynn ac yn eu cymell i "weithredu ar unwaith i dynnu Sifiliaid a Gflogwyd yn Lleol a'u teuluoedd allan".

Gor. 2021
UDA yn gadael maes awyr Bagram yn ystod y nos heb ddweud wrth gadlywydd Affganaidd newydd y safle.
Dwsinau o gyn-gadlywyddion milwrol yn llofnodi llythyr agored i fynegi eu pryder bod gormod o gyn-gyfieithwyr wedi gweld eu ceisiadau am adleoliad ARAP yn cael eu gwrthod yn ddianghenraid ac yn afresymol.

10 Aws. 2021
Y Tŷ Gwyn yn dweud 'nad yw goresgyniad gan y Taliban yn anochel' yn dilyn ciliad UDA.

13 Aws. 2021
Downing Street yn gorchymyn bod Ysgrifennydd Tramor Prydain, Dominic Raab, yn dychwelyd adref o'i wyliau yng Ngroeg. Mae Raab yn gwrthod, ac yn dirprwyo'r penderfyniad ynglŷn â symud staff lleol Affganaidd i weinidog lefel is.

Mae ymdrech y DU i dynnu sifiliaid o Affganistan, Operation PITTING, yn symud tua 15,000 o bobl allan ym mis Awst 2021, yn cynnwys dinasyddion Prydeinig, Affganaidd a thrydedd gwlad. Mae 891 o gyn-staff Affganaidd yn cael eu hadleoli i'r DU o dan y cynllun ARAP; roedd 495 o'r rheiny yn sifiliaid oedd yn gweithio i Weinyddiaeth Amddiffyn y DU.

15 Aws. 2021
Mae llywodraeth Affganistan yn cwympo ac mae'r Taliban yn cipio rheolaeth o Kabul.

Dywedodd Ysgrifennydd Tramor yr wrthblaid, Lisa Nandy: "Mae'n anhygoel bod yr Ysgrifennydd Tramor wedi canfod yr amser i godi'r ffôn i lobio'r Prif Weinidog er mwyn ymestyn ei wyliau ei hun, ond ei fod wedi gwrthod ffonio'r llywodraeth Affganaidd yn yr oriau cyn i Kabul syrthio i'r Taliban."

26 Aws. 2021
Dau achos o fomio hunan-ladd y tu allan i faes awyr Kabul wrth i filoedd o Affganiaid, yn cynnwys nifer a weithiodd gydag ac i luoedd UDA a Phrydain, geisio ffoi o'r wlad wedi iddi gael ei goresgyn gan y Taliban.
Mae o leiaf 169 o Affganiaid a 13 o filwyr UDA yn cael eu lladd. Mae ISIS-K, grŵp sy'n gysylltiedig ag ISIS, yn hawlio'r cyfrifoldeb am yr ymosodiadau.

30 Aws. 2021
Mintai derfynol lluoedd UDA yn gadael Kabul.

Ion. 2022
Y Swyddfa Gartref yn agor Cynllun Adleoli Dinasyddion Affganistan (ACRS). Bydd yn blaenoriaethu'r rhai sydd wedi helpu ymdrechion y DU yn Affganistan a phobl sy'n agored i niwed.

Ion. 2023
12 mis ar ôl lansio'r ACRS, nid oes 1 person wedi ei adleoli o Affganistan o dan y cynllun.

Yn ôl UNHCR, Affganiaid yw'r boblogaeth ffoaduriaid fwyaf drwy'r byd i gyd. Iran a Phacistan sy'n cynnal y rhan fwyaf o'r ffoaduriaid Affganaidd cofrestredig hyn. Yn ogystal â'r rhai sydd wedi gadael Affganistan, mae mwy na 900,000 o Affganiaid wedi eu dadleoli o fewn y wlad o'r newydd ers 2021.